

Gofynion cyfreithiol ar gyfer llawdriniaethau cyffredin ar y fferm

Gyda'r tymor wyna a lloia yn agosáu fe hoffem atgoffa ffermwyr o'r gofyniad cyfreithiol sy'n ymwneud â llawdriniaethau rwtin i anifeiliaid fel ysbaddu, digornio a thocio cynffonau ar ffermydd. (Safon 12e).

GWARTHEG

Triniaeth	Dull	Oed yr anifail	Y person sy'n gwneud y gwaith	Anaesthetig
Ysbaddu	<i>Elastration</i> / Ring rwber	Yn ystod yr wythnos gyntaf bywyd yn unig	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	
	Ysbaddu heb waedu e.e. burdizzo	Hyd at 2 fis oed	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	
	Pryd mae'r anifail dros 2 fis oed neu ble mae unrhyw ddull ar wahân i'r un uchod yn cael ei ddefnyddio.		Milfeddyg yn unig	Gyda
Digornio (<i>dehorning</i>)	Torri/Llifio'r corn (ddim i'w ddefnyddio fel mater o rwtin)	Hyd at 5 mis oed	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	Gyda
		Dros 5 mis oed	Milfeddyg yn unig	Gyda
Disgornio (<i>disbudding</i>)	<i>Cauterisation</i> cemegol	Wythnos yn unig wedi'r genedigaeth	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	
	Dull arall ar wahan l'r uchod (e.e. haearn poeth)	Hyd at 2 fis oed	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	Gyda
Gwaredu tethi diangen	Defnyddio siswrn glân	Hyd at 3 mis oed	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	Gyda
		3 mis oed neu drosodd	Milfeddyg yn unig	Gyda

D.S.: Nid yw tocio cynffonau gwartheg yn cael ei ganiatáu fel mater o rwtin.

DEFAID

Triniaeth	Dull	Oed yr anifail	Y person sy'n gwneud y gwaith	Anaesthetig
Ysbaddu	<i>Elastration</i> / Ring rwber	Yn ystod yr wythnos gyntaf bywyd yn unig	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	
	Clamp/Heb waedu	Hyd at 3 mis oed	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	
	Pryd y mae'r anifail dros 3 mis oed neu lle mae unrhyw ddull arall yn cael ei ddefnyddio ar wahân i'r uchod yn cael eu defnyddio.		Milfeddyg yn unig	Gyda
Tocio cynffonau	Ring rwber	Yn ystod yr wythnos gyntaf bywyd yn unig	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	
	Haearn poeth neu glamp	Dros 2 fis oed	Milfeddyg swyddogol	Gyda
	Llawfeddygol / Arall	Unrhyw oed	Milfeddyg yn unig	Gyda
D.S.: Mae'n rhaid gwneud yn siŵr fod digon o gynffon yn weddill i orchuddio'r fwlf (benyw) neu'r anws (gwryw). Nid oes modd i'r gynffon i fod yn fyrrach na hyn os nad oes argyfwng, afiechyd neu anaf wedi cymryd lle. Bydd angen archwiliad gan lawfeddyg a bydd angen defnyddio anaesthetig ar gyfer unrhyw driniaeth.				
Digornio (<i>Dehorning a disbudding</i>)*	Trimio blaen corn sy'n tyfu ar i mewn sy'n ansensitif.	Unrhyw oed	Person profiadol sy'n gofalu am stoc	
	Pob achos arall	Unrhyw oed	Milfeddyg yn unig	Gyda

* O dan Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol 1966 (fel e'i diwygiwyd) dim ond milfeddyg sy'n gallu digornio (*dehorn a disbud*) dafad, ar wahân i docio blaen ansensitif corn sy'n tyfu'n ar i mewn gan greu poen i'r anifail os na fyddai'r corn yn cael ei drin.